

*Rhif*: ***9*** *Enw'r Ardal Cymeriad Morwedd:* **Bar tywod allanol Trefdraeth ac Abergwaun**





© Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata Arolwg Ordnans / © Crown copyright and database rights Ordnance Survey 100022534, 2020
Sources: Ordnance Survey, Seazone, Pembrokeshire Coast National Park Authority, Natural Resources Wales

**ACM9:Bar tywod allanol Trefdraeth ac Abergwaun**



*Ardal sy'n weladwy o Benrhyn Dinas*



*Ardal sy'n weladwy o Fae Ceibwr*

| Disgrifiad Cryno |
| --- |
| Mae'r bar tywod hwn wedi'i leoli yn Sianel San Siôr ar ymyl deheuol Bae Ceredigion sy'n rhedeg yn gyfochrog â'r bae. Yn bennaf mae'r dŵr o ddyfnder canolig gyda dŵr bas o lai na 30m o ddyfnder i'r de orllewin gyda gwely'r môr o dywod a gwynt isel. |
| **Nodweddion Allweddol** |
| • Bar tywod o ddyfnder canolig yn gyfochrog â'r arfordir 3-5km o'r arfordir.<br>• Banciau tywod dolennog a sianelau ar wely'r môr i'r de.<br>• Yn gyffredinol gwasgiant tonnau isel, cyflymder llanw isel yn gyfochrog â'r arfordir ac ardal ddistyll ar y glannau<br>• Dim llongddrylliadau.<br>• Defnyddir ar gyfer hwylio pleser gan longau mwy a llongau fferi a gellir gweld llongau masnach i'r gogledd a'r de yn mynd i mewn i Borthladd Abergwaun.<br>• Môr agored gyda nodweddion syml a natur agored ar raddfa enfawr yn cael ei ddominyddu gan ymchwydd, tonnau a gwyntoedd gydag ymdeimlad o bellenigrwydd.<br>• Nodweddion allweddol yr arfordir yw Penrhyn Cemaes a Phenrhyn Dinas gyda bryniau arfordirol yn y cefndir yn cynnwys Mynydd Carningli.<br>• Byddai'r goleudy yn Strumble Head yn amlwg iawn yn y nos, yn ogystal â goleuadau strydoedd Abergwaun a phorthladd y fferi o bellterau agosach. Byddai'r môr a llawer o'r arfordir yn dywyll.<br>• Caiff y llonyddwch ei leihau gan y defnydd o'r ardal ar gyfer ymarferion MOD. |
| **Dylanwadau Ffisegol** |
| Bar tywod alltraeth dwyrain-gorllewin bas i ddyfnder canolig (20-40m) yn cynnwys tywod ar fin y traeth yn troi'n raean bras tywodlyd, yn goleddu'n raddol (<1°) ar y traeth ac o'r lan. Mae cefnau dolennog yn gorwedd ar wely'r mor i'r de orllewin oddi ar Fae Abergwaun. Mae'r moroedd yn agored i bwysau tonnau isel, gydag ardal ddistyll yn y rhannau mwy bas gyda'r glannau. Mae gwaddodion gwely'r mor yn gorchuddio tywodfeini nodedig Ordovician a cherrig llaid i'r gogledd-orllewin. Mae cerrynt llanw wedi'u gosod i'r dwyrain a'r gorllewin ar hyd yr arfordir.<br><br>Mae rhan gogledd dwyreiniol yr ardal yn SAC Bae Ceredigion. |
| **Dylanwadau Diwylliannol** |
| Mae'r llwybrau/cysyllteddau hanesyddol sy'n gysylltiedig â'r ardal hon yn cynnwys y fasnach arfordirol a hanes perthynas forol ar hyd morffyrdd y gorllewin. Nid oes unrhyw longddrylliadau yn yr ardal.<br><br>Mae pysgota yn yr ardal yn cynnwys rhwydi gosod, corgimwch, cimwch a photio crancod gyda'r potensial o dreillio dwrgwn ysgafn. Gellir disgwyl pysgota môr. Yr unig ddefnydd adloniadol o'r safle alltraeth hwn fydd llongau morio byrhoedlog yn teithio i fyny ac i lawr Môr Iwerddon. Yn y gorffennol rhoddwyd trwydded Rownd 24 i'r ardal ar gyfer olew a nwy (yn ei dyfroedd gogleddol) a gellir gwneud ceisiadau yn y dyfodol. Mae'n rhan o faes tanio Aberporth ac yn ardal ymarferion militaraidd. |
| **Nodweddion esthetig, canfyddiadol a phrofiadol** |
| Mae'r ardal hon yn 3-5km o'r lan ac felly bydd yr arfordir yn nodwedd lai ond amlwg i ddefnyddwyr badau yn dibynnu ar weledd. Y prif nodweddion fydd Penrhyn Cemaes a Phenrhyn Dinas gyda chefndir o fryniau arfordirol yn cynnwys Mynydd Carningli. Bydd y tir yn ymddangos fel llinell sengl ddimensiynol ar y gorwel gyda lliwiau syml. O'r tir mae'r ardal yn weladwy o'r arfordir, yn cynnwys mannau gweld sy'n cael eu defnyddio'n aml megis Llwybr yr Arfordir, yn mwyhau'r ymdeimlad o ddiffeithwch a natur agored mewn rhannau o'r arfordir hwn<br><br>Mae gan y môr gymeriad syml, cyson ac unedig ar raddfa enfawr ac ymdeimlad arwyddocaol o natur agored, yn bellennig ac amlwg sy'n cynyddu tua'r gogledd. Penderfynir ar ei gymeriad yn llwyr gan rymoedd naturiol y dŵr, trwy ymchwydd a thonnau, a gwynt. Mae'r ardal yn agored |

i’r gwyntoedd o’r de orllewin a’r gogledd ac mewn tywydd gwael mae’r môr yn debygol o fod yn fygythiol. Mae tebygrwydd cryf o lonyddwch ac ymdeimlad o ddiffeithwch a phellenigrwydd yn y môr agored hwn. Mae diffyg cyffredinol o lygredd golau.

Bydd y nifer o longau pleser yn brin ond gellir gweld golygfeydd rheolaidd o’r llongau fferi yn dod i mewn ac yn gadael Porthladd Abergwaun o bellter i’r de/gorllewin ac weithiau ambell long fasnach i’r gogledd. Bydd y defnydd o’r ardal ar gyfer ymarferion a hyfforddiant militaraidd i’r dwyrain yn tarfu ar y llonyddwch ar adegau.

**Buddion diwylliannol a gwasanaethau**

Mae’r ardal yn cyfrannu’n sylweddol tuag at wasanaethau hamdden ac adloniadol ar lun adloniant morol h.y. Hwylio a morio modur, i dreftadaeth naturiol ar lun ei rôl fel rhan o SAC Bae Ceredigion, ac i wasanaethau diwylliannol ac ysbrydol ar lun y môr sy yn bennaf heb ei ddifetha sydd yn weladwy o arfordiroedd gwyllt, sensitif, gorllewinol y Parc Cenedlaethol

**Rhesymau Dros Newid**

| **Crynodeb** | | **Rhesymau allweddol dros newid** | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Gall y bar tywod gronni trwy ddrifft y glannau.<br>Gall caniatáu trwyddedau olew a nwy arwain at bwysau i ddatblygu yn y dyfodol.<br>Defnyddio ar gyfer amcanion. | **Rhinweddau Arbennig** | Prosesau naturiol/newid hinsawdd | Gwasgedd ymwelwyr | Defnydd morol- masnachol a physgota | Egni ar y môr | Gwasgedd datblygiad | Newidiadau rheoli tir | Defnydd MOD |
| | Ysblander yr arfordir | | | | ■ | | | |
| | Ynysoedd | | | | | | | |
| | Amrywiaeth y Tirlun | | | | | | | |
| | Pellenigrwydd, Tawelwch a Diffeithwch | | | | ■ | | | ■ |
| | Daeareg Amrywiol | | | | | | | |
| | Cyfoeth Cynefinoedd a Bioamrywiaeth | | | ■ | ■ | | | |
| | Archaeoleg Gyfoethog | | | | | | | |
| | Cymeriad Anheddiad Nodedig | | | | | | | |
| | Treftadaeth Ddiwylliannol | | | | | | | |
| | Mynediad i’r Parc | | | | ■ | | | ■ |
| | Lle i Anadlu | | | | ■ | | | ■ |
| | **Allwedd** | ■ | Newid yn digwydd yn yr ardal sy’n effeithio ar y nodwedd arbennig ddewisedig | | | | | |

**Sensitifeddau allweddol**

Cymeriad syml, agored, diffaith a phellennig gyda golygfeydd clir o arfordir y Parc Cenedlaethol.

Ffurfio rhan o leoliad agored i Fae Ceredigion gyda Llwybr Arfordir Sir Benfro yn edrych dros y bae ac yn cyfrannu at y cymeriad.

Gwerth Cadwraeth Natur fel rhan o’r ardal fel SAC. Llwybr Arfordir Sir Benfro fel derbynnydd sensitif ac yn edrych dros yr ardal o bellter.

Diffyg cyffredinol llygredd golau.

| |
|---|
| Presenoldeb MOD yn lleihau'r llonyddwch. |